**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 3ydd Ebrill 2019 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield, Mrs. J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs. D. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, Miss S. Roberts, Ms. V. Roberts, J. Rutherford, ac R. Turner.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

**61. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, a Ms. J. Hughes a Miss C.L. Williams.

**62. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.**

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 62.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 16A Ffordd Wellington, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0044<br><br>**DISGRIFIAD:** Newid defnydd llawr cyntaf o fwyty i ddefnydd preswyl i ffurfio estyniad i fflat ail lawr<br><br>**YMGEISWYR :** Mr. R. Singh 39-41 Kinmel Street, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad i newid defnydd i'r llawr cyntaf a'r ail lawr ond pryder na ellir cael mynediad at y man storio ar gyfer yr ardal fanwerthu yn uniongyrchol o Ffordd Wellington pe byddai tân, a fyddai'n peryglu deiliaid yr annedd.* |
| 62.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 11 Water Street, y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor |

| | |
|---|---|
| | **CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2019/0216<br><br>**DISGRIFIAD:** Arddangos 4 arwydd hysbysebu<br><br>**YMGEISWYR :** Y Parch. Paul Robinson, yr Eglwys Unedig yn y Rhyl, 3 Russell Court, y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**63. CAIS GAN GYNGOR SIR DDINBYCH I ANNERCH Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Dywedodd Clerc y Dref fod gohebiaeth wedi ei derbyn gan Mr. Paul Mead, Rheolwr Datblygu, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn cynnig mynychu cyfarfod yn y dyfodol i roddi cyngor ac arweiniad i'r Aelodau ar ymateb i geisiadau.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais a gwahodd Mr. Mead i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio*

**64. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: **…………………........**